Uned 8.3 Modelau a chyflwyno data rhifol

Ynglŷn â'r uned

Yn yr uned hon, bydd disgyblion yn defnyddio meddalwedd taenlen i ddatblygu modelau. Byddant yn cael eu cyflwyno i dechnegau a fydd yn eu galluogi i greu modelau mwy cymhleth ac i'w gwerthuso a'u dadansoddi. Dangosir iddynt sut i gynhyrchu rhifau ar hap i ddarparu data prawf ac i efelychu digwyddiadau. Wedyn byddant yn ystyried pam defnyddir yr efelychiadau a'r animeiddiadau.

Mae'r enghreifftiau a ddefnyddir yn yr uned hon yn cynnwys ffair ysgol, taflu ceiniog a thariffau ffonau symudol. Gall athrawon gyflawni'r un amcanion dysgu gydag ystod o bynciau eraill.

Mae'r gwersi'n cael eu llunio ar gyfer disgyblion sy'n gweithio ar Lefelau 5 a 6 gyda gweithgaredd ymestyn i ddisgyblion sy'n gweithio ar lefelau uwch. Awgrymir y gweithgaredd ymestyn yng ngwers 4 ond gall fod yn brosiect y mae'r disgyblion yn datlbygu wrth i'r uned fynd ymlaen. Os bydd yn cael ei ddefnyddio, dylai'r defnydd ohono fod yn hyblyg a dylid ei ddefnyddio ar gyfnodau priodol yn yr uned i ddiwallu anghenion y disgyblion.

Ble mae'r uned hon yn ffitio:

Mae'r uned hon yn adeiladu ar sgiliau a ddatblygwyd yn ystod cyfnod allweddol 2 a blynyddoedd 7 ac 8 wrth ddefnyddio taenlenni, meddalwedd cyflwyno, cronfeydd data, cyhoeddi pen desg, e-bost a meddalwedd delweddau.

Disgwyliadau

Ar ddiwedd yr uned hon

bydd mwyafrif y disgyblion: yn dewis y wybodaeth y bydd ei hangen at y dibenion gwahanol, yn gwirio ei chywirdeb a'i threfnu a'i pharatoi mewn dull sy'n addas i'w brosesu; yn defnyddio TGCh i strwythuro, mireinio a chyflwyno gwybodaeth mewn dulliau ac arddulliau gwahanol at ddibenion a chynulleidfaoedd penodol; yn cyfnewid gwybodaeth a syniadau gydag eraill mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys defnyddio e-bost ac archwilio'r effeithiau o newid y newidynnau mewn model a seilir ar TGCh; yn trafod eu gwybodaeth a'u profiad o ddefnyddio TGCh, ei defnydd y tu llan i'r ysgol, ac asesu ei defnydd mewn arferion gwaith.

ni fydd rhai disgyblion wedi gwneud cymaint o gynnydd a byddant: yn datblygu a mireinio gwaith, gan ddefnyddio gwybodaeth o ystod o ffynonellau; yn defnyddio modelau a seilir ar TGCh i wneud rhagfynegiadau, yn amrywio'r rheolau oddi fewn iddynt ac asesu dilysrwydd y modelau hyn; yn trafod defnyddio atebion a seilir ar TGCh i agweddau ar y byd gwaith.

bydd rhai disgyblion wedi gwneud mwy o gynnydd a byddant : yn cyfuno gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau a seilir ar TGCh, ynghyd â ffynonellau eraill, i'w harddangos a'u cyflwyno i gynulleidfaoedd gwahanol; yn dewis ac yn defnyddio systemau gwybodaeth addas, gan newid ymholiadau a fynegir mewn iaith gyffredinol i ffurf y bydd yn cael ei deall gan system; yn dylunio modelau a gweithdrefnau a seilir ar TGCh, gyda newidynnau, er mwyn diwallu anghenion a nodwyd ac ystyried cyfyngiadau offer TGCh a ffynonellau gwybodaeth a'r canlyniadau a gynhyrchir ganddynt; yn trafod y defnydd eangach o TGCh mewn modd gwybodus.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGC

Geirfa ac Adnoddau

Trwy'r gweithgareddau yn yr uned hon, bydd disgyblion yn gallu deall, defnyddio a sillafu'r canlynol yn gywir:
- *map didol a graffeg fector*
- *llyfr cyfeiriadau*
- *argraffu cyfunol neu bost cyfunol*
- *llythyrau safonol*

Siarad a gwrando – trwy'r gweithgareddau, gallai disgyblion:
- drafod a chwestiynu beth maen nhw'n ei ddysgu a sut mae'n berthnasol mewn cyd-destunau eraill neu pan fyddant yn defnyddio newidynnau gwahanol
- disgrifio sut aethpwyd i'r afael â'r gwaith a beth arweiniodd at y casgliad
- trafod ac ymateb i syniadau a gwybodaeth cychwynnol, cyflawni tasgau ac wedyn adolygu a mireinio syniadau

Ysgrifennu– trwy'r gweithgareddau, gallai disgyblion:
- drefnu ffeithiau/syniadau/gwybodaeth mewn dilyniant priodol
- dangos perthnasau rhwng syniadau drwy gysylltiadau sy'n dangos bwriad, ac amheuon

Mae Adnoddau'n cynnwys:
- mynediad i'r rhyngrwyd
- meddalwedd – taenlen, trin data ffeil-fflat, prosesu geiriau gyda phostgyfuno, pecyn cyflwyo, graffeg yn seiliedig ar fectorau, graffeg yn seiliedig ar map didol, cyhoeddi pen desg, e-bost gyda llyfr cyfeiriadau

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGC

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg